



Esgeulustod

Gweithgaredd 5: Dangosyddion cam-drin / niwed / esgeulustod

Categori Cam-Drin: Esgeulustod

Mae esgeulustod yn golygu methu â diwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol yr unigolyn, sy'n debygol o amharu ar ei les (er enghraifft, niweidio iechyd yr unigolyn, neu yn achos plentyn, niweidio datblygiad plentyn). Mae'n cynnwys methu â chael gafael ar ofal neu wasanaethau meddygol, esgeulustod wrth gymryd risg, ddim yn rhoi meddyginiaeth presgripsiwn, methu â helpu gyda hylendid personol neu ddarparu bwyd, cysgod, diod; esgeulustod emosiynol.

DANGOSYDDION

Corfforol

- diffyg gofal personol neu oruchwyliaeth addas
- dulliau annerbyniol o reoli ymataliaeth
- gormod o faw neu beryglon iechyd yn yr amgylchedd byw
- brechau, briwiau, llau
- camddefnyddio meddyginiaeth
- methu â chael / hwyluso'r defnydd o brostheteg, dannedd gosod, sbectols, teclynnau clywed, neu gyfarpar gofynnol arall
- nid yw'r cartref yn bodloni anghenion iechyd sylfaenol
- gwres, goleuadau neu welyau annigonol
- dodrefnu gwael yn ystafell yr unigolyn o gymharu â gweddill y cartref
- diffyg cysylltiad corfforol, cysur, sensitifrwydd neu empathi priodol
- diffyg cymorth i symud o gwmpas
- gofalwyr yn ddiotal wrth drin eiddo, dillad neu anifeiliaid anwes
- diffyg gofal wrth drin anaf
- croen mewn cyflwr gwael, doluriau gwasgu heb eu trin, briwiau, doluriau gwely
- gadael yr unigolyn mewn dillad neu wely gwlyb neu fudr
- hypothermia, diffyg hylif, diffyg maeth neu wedi colli cryn dipyn o bwysau
- iechyd yn dirywio neu gyflwr meddygol heb ei drin

- prinder teganau neu eiddo personol gan blentyn
- gormod o bresgripsiynau amlroddadwy, neu tan/gorddefnydd o feddyginiaeth.

Emosiynol

- insomnia / diffyg cwsg
- ofnus
- diffyg hunanhyder
- unigrwydd.

Ymddygiad

- mynd i'w gragen a diffyg cymryd rhan
- golwg flêr
- swrth
- eisiau bwyd yn barhaus, dwyn bwyd, bwyta sbarion bwyd/gwastraff.

Cymdeithasol

- dillad anaddas ar gyfer amodau'r tywydd
- ynysig, dim grwpiau cyfoedion / cyfeillion
- amharod i groesawu ymwelwyr i'r cartref
- ddim yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol / diwylliannol.

LLE ALLAI HYN DDIGWYDD?

- cartref yr unigolyn dan sylw
- cartref gofal preswyl
- cartref nyrsio
- ysbyty
- canolfan gofal dydd
- meithrinfa
- gwarchodwyr plant
- llety gwarchod.

PWY ALL FOD YN GYFRIFOL NEU'N ACHOSI HYN?

- gofalwr cartref
- gofalwr preswyl
- perthynas / rhiant / plentyn / gŵr neu wraig / gofalwr arall
- gweithiwr cymorth
- gweithiwr proffesiynol.